**CRYNHODEB O GOFNODION Y CYNGHORAU COLEG LLEOL I'R BWRDD**
**Rhagfyr 10, 2020**

**SUMMARY OF LOCAL COLLEGE COUNCIL MINUTES FOR THE BOARD**
**December 10, 2020**

| Am gopi o gofnodion llawn unrhyw gyfarfod o gyngor coleg lleol, cysylltwch â Caroline Jones, Swyddog Clercio'r Grŵp. caroline.jones@gllm.ac.uk | Please contact Caroline Jones, Grŵp Clerking Officer should you require a full set of any college council minutes. caroline.jones@gllm.ac.uk |
|---|---|
| **Glynllifon – Hydref 6, 2020**<br>• Croesawyd rheolwyr newydd i'r cyfarfod.<br>• Cyflwynwyd llais y dysgwr, nid oedd unrhyw faterion yn codi; rhoddodd y dysgwyr adborth cadarnhaol iawn ar weithdrefnau diogelwch Covid 19 a roddwyd ar waith ar y campws.<br>• Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol ddiweddariad a oedd yn cynnwys: y strwythur rheoli newydd ar gyfer Glynllifon, trefniadau, achosion a gweithdrefnau diogelwch Covid 19 a diolchwyd i'r holl staff am eu gwaith.<br>• Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Amaeth Bwyd adroddiad a oedd yn cynnwys: diweddariad ar hostel Glynllifon, a oedd ar hyn o bryd yn wag oherwydd Covid 19; diweddariad ar yr adeilad gofal anifeiliaid newydd; datblygiadau diweddaraf gyda chais Parth Gwledig Glynllifon; gweithgaredd y prosiect trosglwyddo gwybodaeth HELIX.<br>• Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol wybodaeth am Gynllun Twf Gogledd Cymru a thendr llwyddiannus £6.2m y Ganolfan Technoleg Bwyd a oedd yn cynnwys llinell gyllideb ar gyfer prosiectau strategol yng Nglynllifon.<br>• Cynghorodd cyngor y coleg pwyll wrth ystyried lleoliad adeilad newydd yng Nglynllifon, gan fod llawer o'r tir yn dir amaethyddol o safon uchel, a fyddai'n drueni ei golli.<br>• Cyflwynodd y Rheolwr Fferm a Choedwigaeth adroddiad a derbyniwyd adborth yr aelodau iddo.<br>• Roedd diweddariad am y campws yn cynnwys gwybodaeth am sut y dyfarnwyd canlyniadau cyrsiau 2020, ni fu unrhyw broblemau gyda hyn yng Nglynllifon. Dangoswyd ffigurau recriwtio, ynghyd â manylion yr amserlen ddiwygiedig a staffio.<br>• Adroddwyd ar faterion staff, nid oedd unrhyw broblemau. | **Glynllifon – October 6, 2020**<br>• The new management was welcomed to the meeting.<br>• The learner voice was presented, there were no issues arising; learners gave very positive feedback on the Covid 19 safety procedures put in place on campus.<br>• The Executive Director presented an update that included: the new management structure for Glynllifon, Covid 19 safety preparations, cases and procedures and an expression of gratitude to all staff for their work.<br>• The Director of Agri Food presented a report, which included: an update on the Glynllifon hostel, which was currently unoccupied dur to Covid 19; an update on the new animal care building; latest developments with the Glynllifon Rural Hub bid; activity of the knowledge transfer HELIX Project.<br>• The Executive Director presented information on the North Wales Growth Plan and the Food Technology Centre's successful tender for a £6.2m that included a budget line for strategic projects at Glynllifon.<br>• The college council advised caution when considering the location for a new build at Glynllifon, in that much of the land was prime agricultural land, which would be a pity to lose.<br>• The Farm and Forestry Manager presented a report to which members gave their feedback.<br>• A campus update included information on how 2020's course results had been awarded, there had been no issues with this at Glynllifon. Recruitment figures were displayed, together with details of revised timetabling and staffing.<br>• Staff matters were reported, there were no issues. |

| Pwllheli – Hydref 20, 2020 | Pwllheli – October 20, 2020 |
|---|---|
| • Derbyniwyd llais y dysgwyr, roedd y materion a godwyd yn cynnwys adborth cadarnhaol ar y dulliau addysgu newydd yng ngoleuni Covid 19 a chais i wella cyfathrebu â darpar fyfyrwyr yn ystod y cyfnod recriwtio.<br>• Adroddodd y Cadeirydd yn ôl o gyfathrebiadau diweddar y Bwrdd.<br>• Cyflwynodd Gwyn Owain Rowlands wybodaeth am y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol Lefel 2 hyd at Lefel 6 a oedd ar gael yn CMD.<br>• Adroddodd y Pennaeth ar ganlyniadau 2020 a chyflwynodd y Penaethiaid Cynorthwyol newydd. Cyflwynodd y rheiny eu hunain yn eu tro ynghyd â manylion eu cyfrifoldebau.<br>• Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol adroddiad campws, a oedd yn cynnwys manylion y ddarpariaeth 14-16 a oedd yn parhau ym Mhwllheli; yr anawsterau wrth gwblhau aseiniadau galwedigaethol ymarferol eleni; gweithdrefnau ar waith i alluogi agor y campws yn ddiogel ym mis Medi; a recriwtio.<br>• Cyflwynwyd llais y staff dysgu, gyda diolch i'r holl staff cefnogi a oedd wedi galluogi'r trosglwyddo i ddysgu cyfunol. Roedd staff dysgu wedi bod o dan gryn straen trwy gydol y pandemig ac wedi ymdopi'n dda iawn o dan yr amgylchiadau. Croesawyd yr aelod staff cefnogi newydd i'w gyfarfod cyntaf, nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.<br>• Cyflwynodd yr aelodau wybodaeth am ddatblygiadau, digwyddiadau a gweithgareddau lleol. | • The learner voice was heard and matters raised included positive feedback on the new teaching methods in light of Covid 19 and a request to improve communication with potential students during the recruitment period.<br>• The Chair reported back from recent Board communications.<br>• Gwyn Owain Rowlands presented details of the Level 2 through to Level 6 health and social provision at CMD.<br>• The Principal reported on 2020 results and introduced the new Assistant Principals, who in turn introduced themselves and details of their responsibilities.<br>• The Assistant Principal gave a campus report, which included details of the 14-16 provision that continued to be offered at Pwllheli; the difficulties in completing practical vocational assignments this year; procedures put in place to enable the safe opening of the campus in September; and recruitment.<br>• The teaching staff voice was presented, with gratitude expressed to all support staff that had enabled the transition to blended learning. Teaching staff had been under considerable stress throughout the pandemic and had coped very well under the circumstances. The new support staff member was welcomed to his first meeting, there were no issues to report.<br>• Members presented information about local developments, events and activities. |
| **Rhyl – Hydref 22, 2020** | **Rhyl – October 22, 2020** |
| • Gan fod y Cadeirydd bellach wedi ymddeol o'r Bwrdd, hyd yma nid oedd Bwrdd Corfforaethol y Grŵp wedi penodi aelod i gadeirio Cyngor Coleg y Rhyl. Roedd hwn yn fater o bwys, a gobeithiwyd y byddai'n cael ei gadarnhau mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf yn Ionawr 2021.<br>• Adroddodd y Pennaeth ar y gystadleuaeth barhaus yr oedd y coleg yn ei hwynebu gydag ysgolion a cholegau eraill yn y rhanbarth ac y byddai diwrnodau agored yn parhau, yn debygol dros y we.<br>• Adroddodd y Pennaeth fod adborth o'r grŵp ffocws myfyrwyr diweddaraf wedi bod yn gadarnhaol iawn.<br>• Cyflwynwyd llais y dysgwr; y brif her yr oeddent yn ei hwynebu oedd y cyfyngiad ar gael cwsmeriaid sy'n talu i'r salon er mwyn ymarfer arnynt. Fodd bynnag, roedd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y campws, gyda mesurau diogelwch Covid 19 wedi'u rhoi ar waith.<br>• Rhoddodd y tri Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariadau ar wahân ar gyfer eu meysydd, a | • As the Chair had now retired from the Board, the Grŵp Corporation Board was yet to appoint a member to chair the Rhyl College Council. This was a matter of importance, which it was hoped, would be agreed in time for the next meeting in January 2021.<br>• The Principal reported on the continuing competition the college faced with other schools and colleges in the region and that open days would continue, likely to be online.<br>• The Principal reported that the latest student focus group feedback had been very positive.<br>• The learner voice was presented; the main challenge they faced was the restriction on having paying customers to the salon to practise on. Learners however, felt safe on campus, with the Covid 19 safety measures that had been put in place.<br>• The three Assistant Principals gave separate updates for their areas, which included news, learner successes and provision developments.<br>• The staff voice was presented. Teaching staff had adapted to the sudden changes to delivery extremely |

| | |
|---|---|
| oedd yn cynnwys newyddion, llwyddiannau dysgwyr a datblygiadau darpariaeth.<br>• Cyflwynwyd llais y staff. Roedd staff dysgu wedi addasu i'r newidiadau sydyn i waith yn dda iawn, a dangoswyd gwerthfawrogiad am gefnogaeth y coleg i ddarparu offer TG i ddysgwyr lle bo angen. Nid oedd gan staff nad oeddent yn athrawon unrhyw faterion i'w hadrodd ac roeddent yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith yn y campws lle bo hynny'n bosibl.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth fanylion sefyllfa gyfredol Covid 19 yn y Rhyl.<br>• Cyflwynwyd diweddariad ar ddatblygu ystadau, gyda chynlluniau ar y gweill i barhau ag adeilad peirianneg newydd yn y Rhyl.<br>• Roedd y coleg yn cael anhawster dod o hyd i leoliadau gwaith i fyfyrwyr yn ystod yr argyfwng a gwnaed cais am gymorth i'r cyflogwyr yn bresennol. | well, and appreciation was shown for the college's support in providing learners with IT equipment where needed. Non-teaching staff had no issues to report and were eager to return to work on campus where possible.<br>• The Principal presented details of the current Covid 19 situation at Rhyl.<br>• An update on estates development was presented, with plans underway to continue with a new engineering building at Rhyl.<br>• The college was experiencing difficulty in finding student placements with employers during the current crisis and a request was made it to the employers present whether assistance was available |
| **Rhos – Tachwedd 3, 2020**<br>• Adroddodd y Cadeirydd yn ôl o gyfathrebiadau diweddar y Bwrdd.<br>• Cyflwynwyd llais y dysgwr gan Lywyddion Undeb y Myfyrwyr ar gyfer AU ac AB a oedd yn ceisio gwella cyfathrebu rhwng AU ac AB. Rhoddwyd adroddiad ar weithgareddau Undeb y Myfyrwyr. Nid oedd unrhyw bryderon mawr gan fyfyrwyr.<br>• Rhoddodd y tri Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariadau ar wahân ar gyfer eu meysydd, a oedd yn cynnwys newyddion, llwyddiannau dysgwyr a datblygiadau darpariaeth.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth ddiweddariad campws, a oedd yn cynnwys data byw, gan gynnwys presenoldeb; a diweddariad ar weithdrefnau diogelwch Covid 19.<br>• Roedd y Pennaeth wedi mynychu paneli dysgwyr; roedd yr adborth yn rhagorol ac yn onest, roedd yn falch o weld bod myfyrwyr wedi ymgysylltu â'r heriau roeddent wedi'u hwynebu.<br>• Derbyniwyd llais y staff, nid oedd unrhyw faterion i'w adrodd; roedd staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth y rheolwyr.<br>• Cyflwynodd yr aelodau wybodaeth am ddatblygiadau, digwyddiadau a gweithgareddau lleol. | **Rhos – November 3, 2020**<br>• The Chair reported back from recent Board communications.<br>• The learner voice was presented by the Student Union Presidents for both HE and FE who were seeking to improve communications between HE and FE. A report on the Student Union activities was given. There were no major student concerns.<br>• The three Assistant Principals gave separate updates for their areas, which included news, learner successes and provision developments.<br>• The Principal gave a campus update, which included live data, such as attendance; and an update on the Covid 19 safety procedures in place.<br>• The Principal had attended learner panels and feedback had been excellent and honest, he was pleased to see that students had engaged with the challenges they had faced.<br>• The staff voice was heard, there were no issues to report; staff felt supported by management.<br>• Members presented information about local developments, events and activities. |

| Dolgellau – Tachwedd 12, 2020 | Dolgellau – November 12, 2020 |
|---|---|
| • Cyflwynwyd llais y dysgwr gan Lywydd UM; roedd y dysgwyr yn hapus gyda'r newidiadau yn y ddarpariaeth. Adroddodd Bryn Hughes Parry o'r paneli dysgwyr diweddaraf. Derbyniwyd adborth cadarnhaol ar y trefniadau Covid 19 a roddwyd ar waith. Y pryder mwyaf oedd cludiant bws coleg, gan nad oedd rhai dysgwyr yn gwisgo mwgwd. Nodwyd bod cod ymddygiad ar waith i ddelio â materion o'r fath.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth y Penaethiaid Cynorthwyol newydd, a gyflwynodd hwy eu hunain yn eu tro ynghyd â manylion eu cyfrifoldebau.<br>• Cafwyd cyflwyniad ar ddarpariaeth Addysg Gyffredinol yn Nolgellau gan y Rheolwr Maes Rhaglen a'r Pennaeth Cynorthwyol.<br>• Roedd adroddiad y Pennaeth yn cynnwys: canlyniadau myfyrwyr 2020 a’r anawsterau a gafwyd gyda chyrff dyfarnu dros yr haf; hefyd bod Bwrdd Corfforaethol y Grŵp wedi cyfarfod y diwrnod hwnnw ac wedi awdurdodiad cychwyn ar gynllun datblygu ar gyfer ystadau Pwllheli a Dolgellau; a'r anawsterau a wynebir wrth sicrhau lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yng ngoleuni Covid 19.<br>• Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariad campws a oedd yn cynnwys: manylion mesurau diogelwch Covid 19 a roddwyd ar waith, a recriwtio.<br>• Diolchodd y staff dysgu i'r rheolwyr am y gefnogaeth a gafwyd trwy gydol y pandemig.<br>• Cafwyd trafodaeth ar dlodi digidol a'r camau a gymerwyd gan y cyngor sir a'r coleg i gynorthwyo'r dysgwyr mewn angen, er bod costau band eang gartref hefyd yn broblem i lawer ac yn un anodd ei ddatrys.<br>• Cyflwynodd yr aelodau wybodaeth am faterion lleol; codwyd mater ynghylch pellhau cymdeithasol yn y dref, yn cynnwys myfyrwyr. Byddai hyn yn derbyn sylw'r Pennaeth. | • The learner voice was presented by the SU President; learners were happy with the changes in provision delivery. Bryn Hughes Parry reported from the latest learner panels. Positive feedback had been received on the Covid 19 arrangements put in place. The biggest concern was college bus transport, as some learners were not wearing masks. It was noted that a code of conduct was in place to deal with such issues.<br>• The Principal introduced the new Assistant Principals, who in turn introduced themselves and details of their responsibilities.<br>• A presentation on General Education provision at Dolgellau was given by the Programme Area Manager and Assistant Principal.<br>• The Principal’s report included: 2020 student results and the difficulties had with awarding bodies over the summer; that the Grŵp Corporation Board had met that day and authorisation given to commence a development plan for the Pwllheli and Dolgellau estates; and the difficulties faced in securing work placements for students in light of Covid 19.<br>• The Assistant Principal gave a campus update that included: details of the Covid 19 safety measures that had been put in place and recruitment.<br>• The teaching staff thanked management for the support received throughout the pandemic.<br>• A discussion was had on digital poverty and the steps taken by the county council and the college to assist those in need, although the cost of accessing broadband at home was also an issue for many and was difficult to remedy.<br>• Members presented information about local matters, with an issue raised regarding social distancing in the town, involving students. This would receive the Principal’s attention. |

| | |
|---|---|
| Gweler isod galendr cyfarfodydd i ddod. Os hoffech fynychu un o'r rhain, cysylltwch â Caroline Jones. | A calendar of forthcoming meetings is detailed below. If you would like to attend any of these meetings, please contact Caroline Jones. |

| | MEDI SEPT | HYD OCT | TACH NOV | RHAG DEC | ION JAN | CHWEF FEB | MAW MAR | EBR APR | MAI MAY | MEH JUN |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHYL** | | 22 | | | 21 | | | 22 | | |
| **RHOS** | | | 3 | | | 2 | | | 17 | |
| **BANGOR** | | | | 7 | | | | | 13 | |
| **LLANG'NI** | | | | 3 | | | | | 6 | |
| **GLYN'FON** | | 6 | | | 14 | | | 13 | | |
| **PWLLHELI** | | 20 | | | 19 | | | 20 | | |
| **DOLG'AU** | | | 12 | | | 11 | | | 11 | |

CRYNHODEB O GOFNODION Y CYNGHORAU COLEG LLEOL I'R BWRDD
Ebrill 15, 2021

SUMMARY OF LOCAL COLLEGE COUNCIL MINUTES FOR THE BOARD
April 15, 2021

| | |
|---|---|
| ***Am gopi o gofnodion llawn unrhyw gyfarfod o gyngor coleg lleol, cysylltwch â Caroline Jones, Swyddog Clercio'r Grŵp. caroline.jones@gllm.ac.uk*** | ***Please contact Caroline Jones, Grŵp Clerking Officer should you require a full set of any college council minutes. caroline.jones@gllm.ac.uk*** |
| **Llangefni – Rhagfyr 3, 2021**<br>• Derbyniwyd braslun o'r newyddion diweddaraf ar gynlluniau i ddatblygiadau ystadau'r Grŵp gan y Cadeirydd.<br>• Rhoddwyd diweddariad o'r trefniadau campws Llangefni ar gyfer cynnal y ddarpariaeth addysg yn ystod y cyfnodau cau diweddaraf, yn ogystal â diweddariad am y trafodaethau addysg ôl 16 ym Môn.<br>• Roedd y dysgwyr yn falch iawn o'r gweithdrefnau diogelwch Covid19 a roddwyd ar waith. Byddai ychydig o fân faterion yn ymwneud â myfyrwyr yn cael eu trosglwyddo i'r rheolwyr i'w sylw.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol yn ogystal â diolch ganddynt am gefnogaeth y coleg a'r cydweithrediad.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys: marchnata, cyflwyno darpariaeth yn ystod y cyfnod cloi, manylion pellach ar ddatblygiadau ystadau Llangefni, newidiadau i leoliad darpariaeth Lefel A Coleg Menai, canlyniadau 2020 myfyrwyr Llangefni.<br>• Derbyniwyd llais y staff; roeddent yn ddiolchgar o gefnogaeth y rheolwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â'r gefnogaeth rhoddwyd i'r dysgwyr gyda darpariaeth offer TG. | **Llangefni – December 3, 2020**<br>• The Chair gave an update of the Grŵp's estate developments plans.<br>• An update on the Llangefni campus arrangements for maintaining education provision during the latest lockdown was given, as well as an update on Abglesey's post 16 education negotiations.<br>• Learners were satisfied with the Covid19 safety procedures put in place. A few minor issues would be passed to management for their attention.<br>• Members were given the opportunity to share relevant information / issues, which were received. Thanks were expressed for the support and co-operation received by the college.<br>• The Principal's report was received which included: marketing, delivery of provision during lockdown, further details on the Llangefni estate developments, changes to the location of Coleg Menai's A Level provision, the Llangefni students' results for 2020.<br>• The staff voice was received; gratitude was expressed for the support from management during this difficult time, as well as the support given to the learners with the provision of IT equipment. |
| **Bangor – Rhagfyr 7, 2020**<br>• Rhannodd y Pennaeth gyflwyniad ar y cynlluniau i ddatblygu campysau Coleg Menai, gyda'r prif ffocws ar adleoli campws Ffordd Ffriddoedd i Barc Menai, Bangor.<br>• Derbyniwyd adborth da am ddiogelwch o'r panel dysgwyr diweddaraf - bod dysgwyr yn teimlo yn ddiogel yn y coleg.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys canlyniadau 2020 myfyrwyr Bangor yn ogystal ag ymatebion i gwestiynau gan aelodau cyngor y coleg. | **Bangor – December 7, 2020**<br>• The Principal gave a presentation on the plans to develop the Coleg Menai campuses, with the main focus being on relocating the Ffriddoedd Road campus to Parc Menai, Bangor.<br>• Good feedback on safety was received at the latest learner panel - that learners felt safe at college.<br>• The Principal's report was received and included Bangor students' 2020 results and responses to questions from members of the college council. |

| | |
|---|---|
| • Derbyniwyd adroddiad campws a oedd yn cynnwys gwybodaeth am flaenoriaethau'r coleg, manylion y camau a wnaethpwyd i ddiogelu'r safle yn ystod y pandemig, y gwaith marchnata cyrsiau,<br>• Derbyniwyd adborth gan y staff dysgu, a bod y flwyddyn hyd yna wedi bod yn un heriol iawn iddynt.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol yn ogystal â diolch ganddynt am gefnogaeth y coleg a'r cydweithrediad. | • A campus report was received, which included information on the college's priorities, details of actions taken to safeguard the site during the pandemic, and marketing,<br>• Feedback was received from teaching staff, the year to date has been very challenging for them.<br>• Members were given the opportunity to share relevant information / issues, which were received. Thanks were expressed for the support and co-operation received by the college. |
| **Glynllifon – Ionawr 14, 2021**<br>• Derbyniwyd cwestiwn am gynlluniau ar gyfer defnydd yr uned geffylau, a rhoddwyd ymateb nad oedd cynllun yn ei le hyd yma.<br>• Derbyniwyd llais y dysgwr, a oedd ar y cyfan yn bositif.<br>• Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Masnachol ar y cyhoeddiadau Covid19 diweddaraf a'r effaith o hyn ar y coleg.<br>• Cyflwynodd Martin Jardine wybodaeth am y prosiectau bwyd-amaeth ar y gweill a oedd yn cynnwys y Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, cynllun Tech-Amaeth Helix a'r nawdd gan gwmni Stihl.<br>• Rhoddwyd manylion o'r gwaith brandio, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ar waith i hyrwyddo Glynllifon.<br>• Derbyniwyd diweddariad ar ddatblygiadau'r adeilad gofal anifeiliaid bychain newydd.<br>• Adroddwyd ar ystadegau ansawdd cyrsiau diwydiannau'r tir Glynllifon. | **Glynllifon – January 14, 2021**<br>• A question was received about plans for future use of the equine unit, with a response given that no plans had yet been put in place.<br>• The learner voice was received, which was, on the whole, positive.<br>• The Executive Director of Commercial Development reported on the latest Covid19 announcements and the impact of this on the college.<br>• Martin Jardine presented information on the agri-food projects underway which included the Forest Industry Recovery Scheme, the Helix Agri-Tech scheme and sponsorship from Stihl.<br>• Details were presented of the branding, marketing and public relations work undertaken to promote Glynllifon.<br>• An update was received on the new small animal care building developments.<br>• The quality statistics for Glynllifon's land-based courses were reported. |
| **Pwllheli – Ionawr 19, 2021**<br>• Derbyniwyd adborth positif iawn gan y dysgwyr a chanmolwyd y gefnogaeth cafwyd gan eu tiwtoriaid.<br>• Diolchwyd i Gyngor Tref Pwllheli am y grant tuag at offer TG i ddysgwyr.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol.<br>• Derbyniwyd cyflwyniad ar y gwasanaeth dysgwyr.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys canlyniadau a phresenoldeb 2020 ac ymatebion i gwestiynau gan aelodau cyngor y coleg.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth fanylion ar ddarpar welliannau i ystâd Pwllheli.<br>• Derbyniwyd adroddiad safle a oedd yn cynnwys, gweithgareddau marchnata, trefniadau asesiadau ac arholi 2021, trefniadau iechyd a diogelwch | **Pwllheli – January 19, 2021**<br>• Feedback from the learners was very positive and the support received from their tutors was praised.<br>• Pwllheli Town Council was thanked for the grant towards IT equipment for learners.<br>• Members were given an opportunity to share relevant information / issues and this was received by the members present.<br>• A presentation on learner services was received.<br>• The Principal reported on 2020 results and attendance, and responded to questions received from members of the college council.<br>• The Principal presented details of proposed improvements to the Pwllheli estate.<br>• A campus report was presented, which included, marketing activities, assessment and examination |

| | |
|---|---|
| ynghlwm â'r pandemig, a dangoswyd fideo o safle'r Hafan.<br>• Derbyniwyd diweddariad gan y staff dysgu a chefnogi. | arrangements for 2021, health and safety arrangements related to the pandemic, and a video of the Hafan site was shown.<br>• An update was received from the teaching and support staff. |
| **Rhyl – Ionawr 21, 2021**<br>• Cyflwynwyd y Pennaeth fanylion datblygiad y ganolfan peirianneg newydd, a derbyniwyd adborth gan yr aelodau.<br>• Derbyniwyd diweddariad gan y staff dysgu a chefnogi.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth grynodeb o'r tymor hydref a oedd yn cynnwys ystadegau presenoldeb, adborth o'r paneli dysgwyr, sefyllfa Covid19 a chefnogaeth i ddysgwyr.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol. | **Rhyl – January 21, 2021**<br>• The Principal presented details of the engineering centre development to date and feedback was received from members.<br>• An update was received from the teaching and support staff.<br>• The Principal presented a summary of the autumn term which included attendance statistics, feedback from the learner panels, the Covid19 situation and support for learners.<br>• Members were given an opportunity to share relevant information / issues and this was received by the members present. |
| **Rhos – Chwefror 2, 2021**<br>• Derbyniwyd y newyddion diweddaraf gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr. Dangoswyd pryder gan rhai dysgwyr ar y diffyg profiad ymarferol yn rhai meysydd galwedigaethol oherwydd Covid19.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth grynodeb o'r tymor hydref a oedd yn cynnwys ystadegau presenoldeb, adborth o'r paneli dysgwyr, sefyllfa Covid19 a chefnogaeth i ddysgwyr.<br>• Derbyniwyd diweddariad gan y staff dysgu.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol. | **Rhos – February 2, 2021**<br>• The Students' Union President presented an update. Some learners had expressed concern at the lack of practical experience in some vocational areas due to Covid19.<br>• The Principal presented a summary of the autumn term which included attendance statistics, feedback from learner panels, the Covid19 situation and support for learners.<br>• An update was received from teaching staff.<br>• Members were given an opportunity to share relevant information / issues and this was received by the members present. |
| **Dolgellau – Chwefror 11, 2021**<br>• Derbyniwyd adborth positif gan y dysgwyr.<br>• Derbyniwyd cyflwyniad ar y gwasanaeth dysgwyr.<br>• Rhoddwyd cyfle i aelodau rannu gwybodaeth/materion perthnasol a derbyniwyd hyn gan yr aelodau'n bresennol.<br>• Rhoddwyd cyflwyniad ar y newidiadau arfaethedig i ystadau safle Dolgellau yn ogystal â gwelliannau i'w gwneud dros yr haf.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys llwyddiannau 2020 a cheisiadau 2021.<br>• Derbyniwyd adroddiad safle a oedd yn cynnwys trefniadau Covid19, marchnata, staffio a newyddion diweddaraf. | **Dolgellau - February 11, 2021**<br>• Positive feedback was received from learners.<br>• A presentation on learner services was received.<br>• Members were given an opportunity to share relevant information / issues, and this was received by the members present.<br>• A presentation was given on the proposed changes to the Dolgellau site estates as well as improvements to be made over the summer.<br>• The Principal's report was received which included details of 2020 successes and 2021 applications.<br>• A campus report was presented, which included information on Covid19 arrangements, marketing, staffing and latest news. |

| | |
|---|---|
| Gweler isod galendr cyfarfodydd i ddod. Os hoffech fynychu un o'r rhain, cysylltwch â Caroline Jones. | A calendar of forthcoming meetings is detailed below. If you would like to attend any of these meetings, please contact Caroline Jones. |

| | MEDI SEPT | HYD OCT | TACH NOV | RHAG DEC | ION JAN | CHWEF FEB | MAW MAR | EBR APR | MAI MAY | MEH JUN |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHYL** | | 22 | | | 21 | | | 22 | | |
| **RHOS** | | | 3 | | | 2 | | | 17 | |
| **BANGOR** | | | | 7 | | | | | 13 | |
| **LLANG'NI** | | | | 3 | | | | | 6 | |
| **GLYN'FON** | | 6 | | | 14 | | | 13 | | |
| **PWLLHELI** | | 20 | | | 19 | | | 20 | | |
| **DOLG'AU** | | | 12 | | | 11 | | | 11 | |

**CRYNHODEB O GOFNODION Y CYNGHORAU COLEG LLEOL I'R BWRDD**
**Gorffennaf 1, 2021**

**SUMMARY OF LOCAL COLLEGE COUNCIL MINUTES FOR THE BOARD**
**July 1, 2021**

| | |
|---|---|
| ***Am gopi o gofnodion llawn unrhyw gyfarfod o gyngor coleg lleol, cysylltwch â Caroline Jones, Swyddog Clercio'r Grŵp. caroline.jones@gllm.ac.uk*** | ***Please contact Caroline Jones, Grŵp Clerking Officer should you require a full set of any college council minutes. caroline.jones@gllm.ac.uk*** |
| **Glynllifon – Ebrill 13, 2021**<br>• Yn absenoldeb dysgwyr, derbyniwyd adborth o arolwg diweddar y dysgwyr. Derbyniwyd canlyniadau positif am y coleg a'r addysg.<br>• Derbyniwyd cyflwyniad ar gais Parth Gwledig Glynllifon o fewn Cais Twf Gogledd Cymru gan Robyn Lovelock, rheolwr un o raglenni Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Cafwyd cyfle i ofyn am wybodaeth bellach am y cais.<br>• Cyflwynodd Martin Jardine y diweddar ar nifer o brosiectau ar y gweill yng Nglynllifon, sef ariannu peiriannau coedwigaeth, Twf Gwyrdd Glynllifon, prosiect HELIX a chyfryngau cymdeithasol.<br>• Derbyniwyd adroddiad drwy gyfres o fideos gan Reolwr y Fferm a Choedwigaeth.<br>• Derbyniwyd llais y staff gyda diweddariad am y newid yng nghyrsiau galwedigaethol ar gael yng Nglynllifon.<br>• Derbyniwyd diweddariad safle, yn cynnwys: data presenoldeb a oedd yn dda iawn, adborth positif gan ddysgwyr yn yr arolwg diweddaraf, data ceisiadau, staffio, cyhoeddusrwydd a llwyddiannau. | **Glynllifon – April 13 2021**<br>• In the absence of learners, feedback was received from the recent learner survey. Positive results had been received about the college and its education.<br>• A presentation on the Glynllifon Rural Hub application within the North Wales Growth Bid was given by Robyn Lovelock, a programme manager from the North Wales Ambition Board. Members were given an opportunity to request further information on the application.<br>• Martin Jardine presented an update on a number of projects underway at Glynllifon, i.e. forestry machinery funding, Glynllifon Green Growth, the HELIX project and social media.<br>• The Farm and Forestry Manager's report was presented as a series of videos.<br>• The staff voice was received, including an update on the changes to vocational courses at Glynllifon.<br>• A campus update was presented and included: a report on very good attendance data, positive feedback from learners in the latest survey, applications' data, staffing, publicity and successes. |
| **Pwllheli – Mai 4, 2021**<br>• Cyflwynodd dau ddysgwr lais y dysgwr, gan ganmol y gweithdrefnau addysgu a diogelwch a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.<br>• Cyflwynodd Fflur Rees Jones y cefndir ar benderfyniad CBAC a Chymwysterau Cymru ar y dulliau ar gyfer pennu graddau arholiad ar gyfer 2021.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth ei adroddiad, a oedd yn cynnwys: sut y dyfarnwyd cyllid ardal denau ei phoblogaeth i Goleg Meirion Dwyfor, y strwythur rheoli newydd, rhestr o fusnesau a oedd yn cydweithio â'r coleg ar amrywiol gyrsiau a chrynodeb byr o'r cynlluniau ystadau arfaethedig ar gyfer y campws.<br>• Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariad campws a oedd yn cynnwys: diweddariad ar gynnydd graddau a aseswyd gan athrawon, data | **Pwllheli – May 4, 2021**<br>• Two learners presented the learner voice, praising the teaching and safety procedures put in place during the pandemic.<br>• Fflur Rees Jones presented the background on WJEC and Qualifications Wales' decision on the methods for determining examination grades for 2021.<br>• The Principal presented his report, which included: how sparsity funding was awarded to Coleg Meirion Dwyfor, the new management structure, a list of businesses that collaborated with the college on various courses and a brief summary of proposed estates plans for the campus.<br>• The Assistant Principal gave a campus update that included: update on teacher assessed grades progress, retention data, estates update, healthy recruitment data and virtual open days.<br>• The staff voice was given, there were no matters to report on this occasion and members expressed their |

| | |
|---|---|
| cadw, diweddariad ystadau, data recriwtio iach a diwrnodau agored rhithwir.<br>• Derbyniwyd llais y staff; nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd y tro hwn a mynegodd yr aelodau eu diolch am ymrwymiad staff yn ystod y cyfnod pandemig anodd. | gratitude for staff commitment during the difficult pandemic period. |
| **Dolgellau - Mai 11, 2021**<br>• Derbyniwyd diolch gan y Cadeirydd am ymrwymiad y staff yn ystod y cyfnod anodd drwy'r pandemig.<br>• Derbyniwyd llais y dysgwyr gan fyfyrwraig Lefel A. Adroddwyd bod y gefnogaeth i ddysgu o adref wedi bod yn dda iawn a phan roeddent wedi dychwelyd i'r coleg roeddent yn teimlo'n ddiogel gyda'r camau diogelwch a wnaethpwyd.<br>• Gan nad oedd staff yn bresennol, ni dderbyniwyd llais y staff.<br>• Rhoddodd Fflur Rees Jones gyflwyniad ar sut roedd CBAC a Chymwysterau Cymru yn pennu graddau arholiadau 2021.<br>• Derbyniwyd diweddariad am y safle gan y Pennaeth Cynorthwyol a oedd yn cynnwys gwybodaeth am: y camau diogelwch a wnaethpwyd i alluogi agor bob darpariaeth, y drefn graddio cyrsiau galwedigaethol, data ceisiadau 2021/22 a digwyddiadau diwrnodau agored rhithiwr. | **Dolgellau – Mai 11, 2021**<br>• The Chair thanked staff for their commitment during the difficult period through the pandemic.<br>• The learner voice was presented by an A Level student. Support for home-learning had been very good and on their return to college, learners had felt safe with the procedures put in place.<br>• As no staff were present, nothing was received on this occasion.<br>• Fflur Rees Jones presented the background on WJEC and Qualifications Wales' decision on the methods for determining examination grades for 2021.<br>• The Assistant Principal gave a campus update which included information on: the safety measures to enable re-opening of each provision, the vocational courses grading system, 2021/22 application data and virtual open day events. |
| **Rhos – Mai 17, 2021**<br>• Croesawyd Alun Thomas fel Cadeirydd newydd Cyngor Coleg Rhos.<br>• Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth am weithgareddau diweddar y Bwrdd, a oedd yn cynnwys y CCB, yr ymrwymiadau sylweddol a wnaed i wella ystadau'r Grŵp, caffael Hyfforddiant Gogledd Cymru a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, a'r digwyddiadau cynllunio strategol rheolaidd.<br>• Rhoddodd Llywydd Undeb Myfyrwyr AU y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau diweddar yr undeb.<br>• Cafwyd trafodaeth ar gynyddu aelodaeth cyngor y coleg.<br>• Rhoddodd y tri Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariadau o'u meysydd. Roedd hyn yn cynnwys: data ansawdd ar gyfer y tymor diwethaf, manylion buddsoddiad mewn adnoddau addysgu, enghreifftiau o lwyddiant myfyrwyr, yr heriau a wynebodd cyrsiau ymarferol yn ystod y pandemig, gweithdrefnau diogelwch a roddwyd ar waith ar gyfer ailagor y campws.<br>• Cyflwynwyd llais y staff, a diolchwyd am y gweithdrefnau diogelwch yn ogystal â'r adnoddau TG a ddarperir i sicrhau gwasanaeth parhaus trwy gydol y cyfnod clo.<br>• Cyflwynodd y Pennaeth ddiweddariad ar y flwyddyn academaidd hyd yma, a oedd yn cynnwys: data ansawdd dargadwedd a phresenoldeb, | **Rhos – Mai 17, 2021**<br>• Alun Thomas was welcomed as the new Chair of the Rhos College Council.<br>• The Chair gave an update on the Board's recent activities, which included the AGM, the significant commitments made to improving the Grŵp's estates, the acquisition of North Wales Training and the service it provided, and the regular strategic planning events.<br>• The HE Student Union President gave an update of recent activities undertaken by the union.<br>• A discussion took place on increasing membership of the college council.<br>• The three Assistant Principals gave updates from each of their areas, which included: quality data for the past term, details of investment in teaching resources, examples of student success, the challenges faced by practical courses during the pandemic, safety procedures that had been put in place for re-opening the campus.<br>• The staff voice was presented, with thanks expressed for the safety procedures put in place as well as IT resources provided to ensure continuous service throughout lockdown.<br>• The Principal presented an update on the academic year to date, which included: quality data on retention and attendance, changes to the |

| | |
|---|---|
| newidiadau i'r strwythur rheoli, datblygiadau arfaethedig i gynllun y safle. | management structure, and proposed developments to the site footprint. |
| **Llangefni – Mai 20, 2021**<br>• Diolchodd y Cadeirydd pawb am eu gwaith a chefnogaeth yn ystod y cyfnod Covid19.<br>• Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o waith y Bwrdd a oedd yn cynnwys: datblygiadau ystadau sylweddol bwriedir eu gwneud ar draws y Grŵp cyfan, diweddariad ar y sefyllfa ariannol, manylion y strategaeth TG newydd, cydweithrediad â phartneriaeth addysg ôl 16 Gwynedd a Môn.<br>• Derbyniwyd adborth o'r arolwg dysgwyr gan y Pennaeth Cynorthwyol.<br>• Dangoswyd fideo o fesuriadau diogelwch a phrofiadau dysgwyr yn y coleg yn ystod cyfnod y pandemig.<br>• Derbyniwyd cyflwyniad am y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn Llangefni / Coleg Menai.<br>• Derbyniwyd diweddariad gan Virginia Crosbie AS Môn, a oedd yn cynnwys nifer o gynlluniau ar y gweill ganddi mewn perthynas â dysgwyr yr ardal.<br>• Nid oedd staff yn bresennol y tro hwn, ond dywedodd y Pennaeth bod staff yn cael cyfle rhoi barn mewn cyfarfodydd ar wahân gydag ef fel bo angen.<br>• Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol ddiweddariad campws a oedd yn cynnwys: disgrifiad o holl adeiladau'r campws, newid i'r ddarpariaeth a gynhigiwyd yn Llangefni a chyrsiau byr i fusnes, eglurhad o'r drefn pennu graddau terfynol eleni, a'r niferoedd o geisiadau ar gyfer 2021/22.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys: pwyslais arall ar y newidiadau sylweddol i gampws Llangefni a fyddai'n codi'r niferodd o ddysgwyr yno, gwybodaeth am gysylltiadau busnes a bod gan Grŵp Llandrillo Menai sedd ar Fwrdd Sgiliau Creadigol Cymru, a gobeithir y gellir cynnal cynllun peilot ar rannu prentisiaid. | **Llangefni – May 20, 2021**<br>• The Chair thanked everyone for their work and support during the Covid19 period.<br>• The Chair provided a summary of the Board's recent activities, which included: significant estate developments planned across the whole Grŵp, an update on the financial position, details of the new IT strategy, collaboration with Gwynedd and Anglesey post 16 education partnership.<br>• The Assistant Principal gave feedback from the learner survey.<br>• A video of safety measures and learner experiences at the college during the pandemic was shown.<br>• A presentation on the health and social care provision in Llangefni / Coleg Menai was given.<br>• An update was received from Virginia Crosbie MP for Anglesey, which included a number of initiatives being undertaken by her in relation to learners in the area.<br>• Staff members were not present on this occasion, but the Principal stated that staff were given the opportunity to speak to him at separate meetings as needed.<br>• The Assistant Principal provided a campus update which included: a description of all campus buildings, a change to the provision offered in Llangefni and short courses for business, an explanation of this year's final grading procedure, and the numbers of applications for 2021/22.<br>• The Principal's report was received which included: further emphasis on the significant changes to the Llangefni campus which would as a result increase learner numbers, information on business links, and that Grŵp Llandrillo Menai had a seat on the Creative Skills Board for Wales - it was hoped that apprentice sharing could be piloted. |
| Gweler isod galendr cyfarfodydd i ddod. Os hoffech fynychu un o'r rhain, cysylltwch â Caroline Jones. | A calendar of forthcoming meetings is detailed below. If you would like to attend any of these meetings, please contact Caroline Jones. |

| | MEDI SEPT | HYD OCT | TACH NOV | RHAG DEC | ION JAN | CHWEF FEB | MAW MAR | EBR APR | MAI MAY | MEH JUN |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHYL** | | 22 | | | 21 | | | | | 29 |
| **RHOS** | | | 3 | | | 2 | | | 17 | |
| **BANGOR** | | | | 7 | | | | | | 24 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LLANG’NI** | | | | 3 | | | | | 6 | |
| **GLYN’FON** | | 6 | | | 14 | | | 13 | | |
| **PWLLHELI** | | 20 | | | 19 | | | | 4 | |
| **DOLG’AU** | | | 12 | | | 11 | | | 11 | |